Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## The Cardiff Clinic, Heol y Gadeirlan, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mehefin 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83504-192-5



© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

4. Y camau nesaf ........ 17

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 18

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 19

Atodiad C - Cynllun gwella ........ 20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Cardiff Clinic ar 15 Mawrth 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd y tîm gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd The Cardiff Clinic yn ymrwymedig i ddarparu gofal i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd yr amgylchedd hefyd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant yn y clinig. Mae angen gwella'r broses ar gyfer sicrhau y gall cleifion roi adborth am eu profiadau yn y clinig.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Nododd y cleifion fod y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig yn dda iawn.
- Sicrhau bod prosesau ar waith i drin y cleifion ag urddas a pharch.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd trefniadau addas ar waith yn y clinig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn wedi'i ategu gan amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol perthnasol.

Roedd amgylchedd y clinig yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y clinig yn lân. Roedd trefniadau a phrosesau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau ac ar gyfer dihalogi'r cyfarpar a ddefnyddir yn y clinig. Mae angen i'r clinig sicrhau y caiff gwaith glanhau yn y clinig ei gofnodi'n briodol.

Gwelsom fod y cofnodion a oedd yn cael eu cadw yn y clinig yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi'r cynnig o hebryngwyr ar gofnodion cleifion
- Sicrhau bod amserlenni glanhau ar waith
- Rhoi rhaglen o archwiliadau clinigol ac archwiliadau perthnasol eraill ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu amgylchedd croesawgar i'r cleifion
- Sicrhau bod y cofnodion yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy
- Cynnal amrywiaeth o bolisïau cyfredol perthnasol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y staff yn amlwg yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar y sgiliau priodol i roi gofal diogel i'r cleifion.

Roedd gweithdrefn ar gyfer rheoli cwynion ar waith. Mae angen i hyn gael ei atgyfnerthu ymhellach gan gofnodlyfr cwynion i gofnodi'r cwynion a wnaed a nodi unrhyw themâu.

Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith ac roedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd ac a ddangoswyd yn effeithiol.

Roedd gwybodaeth berthnasol am y clinig a'r gwasanaethau a gynigiwyd ganddo ar gael yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion a oedd wedi'u harddangos yn glir yn y clinig.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol priodol
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i'r staff roi gwybod am newidiadau a fyddai'n effeithio ar statws eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Llinellau adrodd ac atebolrwydd clir
- Sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn gyfredol
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd yr ymatebion a'r sylwadau cyfyngedig yn awgrymu bod cleifion yn cael profiad cadarnhaol tu hwnt yn y lleoliad hwn ym mhob maes. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed yn canmol y staff am eu natur gyfeillgar, eu caredigrwydd, eu tosturi a'u proffesiynoldeb. Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau i wella'r gwasanaeth gan unrhyw un o'r ymatebwyr. Yn yr holiadur, gofynnwyd i’r cleifion roi barn ar eu profiad cyffredinol o’r gwasanaeth. Dywedodd pob un o'r 20 o gleifion fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’. Dywedodd y cleifion wrthym:

> *“Cefais wasanaeth o'r radd flaenaf, o'r dechrau i'r diwedd.”*
> *“Gwasanaeth o ansawdd uchel iawn, a gofal dilynol gwych.”*
> *“Mae'r staff i gyd yn groesawgar iawn, ac mae bob amser yn bleser dod i'r clinig.”*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai’r lleoliad wella’r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Ni wnaed unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella, ac roedd y sylwadau a wnaed i ategu hyn yn cynnwys y canlynol:

> *“Nid oes angen unrhyw welliannau.”*
> *“Mae'r gwasanaeth yn ardderchog fel y mae.”*

**Diogelu a gwella iechyd**

Roedd rhywfaint o ddeunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn y clinig. Dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cael ei drafod yn ystod yr ymgynghoriad, lle byddai'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn trafod opsiynau eraill, gan gynnwys colli pwysau yn ogystal â holi ynghylch smygu a rhoi'r gorau i smygu. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gweithdrefnau sydd ar gael a chwestiynau cyffredin amdanynt.

Roedd hylif diheintio dwylo yn cael ei gynnig i gleifion ac ymwelwyr wrth gyrraedd y clinig. Roedd masgiau a pheiriant mesur tymheredd digidol hefyd ar gael yn y clinig.

**Urddas a pharch**
Nid oedd unrhyw gleifion yn y clinig yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, cerddodd un darpar gleient i mewn i'r clinig i gael cyngor yn ystod yr arolygiad, ac ymdriniwyd ag ef mewn modd preifat a sensitif.

Roedd amgylchedd y clinig yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd drws ar yr ystafell ymgynghori y gellid ei gau ac roedd bleinds ar y ffenestri, a oedd ar gau. Roedd sgrin yn yr ystafell ymgynghori hefyd er mwyn diogelu urddas y cleifion ymhellach ac er mwyn iddynt newid y tu ôl iddi pe bai angen. Roedd derbynfa fawr yn y clinig ac roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu bob 15 i 30 munud, a oedd yn cyfyngu ar nifer y cleifion yn y clinig ar unrhyw adeg.

Disgrifiodd y staff drefniadau addas i gynnal cyfrinachedd wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod digon o seddi yn yr ardal aros a bod toiledau neu gyfleusterau ymolchi digonol o fewn pellter rhesymol i'r ardal aros. At hynny, roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch, a bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod yr apwyntiad.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, drwy alw heibio i'r clinig neu drwy wneud ymholiad ar wefan y clinig.

Gwelwyd taflenni gwybodaeth yn y clinig yn ymwneud â'r triniaethau a gynigir gan y clinig. Saesneg oedd iaith y mwyafrif o'r wybodaeth a'r arwyddion yn y clinig.

Cadarnhaodd y staff y gallent ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu pe bai angen, er mwyn cyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Dywedwyd wrthym fod un aelod o'r staff yn dysgu Cymraeg. Byddai'n fuddiol i'r clinig osod arwydd wrth y dderbynfa yn nodi y dylai cleifion a oedd yn dymuno siarad â'r staff yn Gymraeg roi gwybod i'r clinig ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i fodloni eu cais.

**Rydym yn argymell y dylid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol y gallant gael gwasanaeth yn Gymraeg.**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Dywedwyd wrthym fod cleifion newydd i'r clinig yn cael taflen wybodaeth i gleifion, ac y byddai'r daflen hon yn cael ei thrafod â'r claf yn ystod yr ymgynghoriad. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddai gohebiaeth yn cael ei hanfon at y claf, yn cynnwys cost y driniaeth a gwybodaeth amdani, a ffurflen gydsynio. Gwelsom enghraifft yn y polisi diogelu a oedd yn nodi bod angen cydsyniad gan yr atwrneiaeth ar gyfer cleifion heb alluedd meddyliol ar gyfer triniaethau penodol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd. Roeddent hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. At hynny, roedd pob un o'r cleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gallai'r staff, gan gynnwys y person cofrestredig, ddisgrifio trefniadau addas ar gyfer cael cydsyniad dilys gan glaf.

**Cynllunio a darparu gofal**

Ar sail y sgyrsiau a gafwyd â'r staff, roedd yn amlwg mai gofal a diogelwch cleifion oedd prif flaenoriaeth y clinig. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion yn cael gwybod am unrhyw amseroedd aros ac unrhyw resymau dros oedi cyn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. At hynny, byddai'r staff yn ffonio cleifion ymlaen llaw pe bai oedi o ran unrhyw apwyntiadau diweddarach.

Dywedodd pob un o'r cleifion a atebodd yr holiadur eu bod wedi aros llai na 15 munud am eu hapwyntiad, a dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybod pa mor hir y byddent yn debygol o orfod aros.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Ar sail ein trafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y clinig mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl. Gwelsom fod addasiadau rhesymol wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y clinig yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith hefyd. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gleifion trawsryweddol yn cael eu cyfeirio at lawfeddygon cymwys eraill sy'n arbenigo yn y maes hwn.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar wasanaethau'r clinig nac wrth eu defnyddio.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion wedi darparu adolygiadau ar-lein ar y driniaeth a gawsant. Roedd enghreifftiau o adborth a roddwyd wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Nid oedd y clinig yn mynd ati i geisio barn defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn llywio gwelliannau a datblygiadau i'r gwasanaeth.

**Rydym yn argymell y dylai'r gwasanaeth fynd ati i geisio adborth gan gleifion ac y dylai canlyniadau'r adborth hwn gael eu harddangos yn ardal y dderbynfa ac yn y canllaw i gleifion.**

Nodwyd tystiolaeth bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, sy'n llawfeddyg plastig, wedi'i restru ymhlith y tri gorau yn yr ardal. Roedd hyn yn seiliedig ar wahanol fetrigau, gan gynnwys adolygiadau cwsmeriaid a graddau.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Dim ond ymgynghoriadau ar gyfer achosion clinigol y mae'r clinig yn eu darparu fel rhan o'i weithgareddau cofrestredig ac, felly, risg isel iawn y mae'n ei pheri ar gyfer gofal acíwt neu frys. Roedd polisi llewygu ar waith yn y clinig, ac roedd pob aelod o'r staff wedi'i hyfforddi i roi cymorth cynnal bywyd sylfaenol. Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir ar y safle ar wahân i EpiPen ar gyfer achos posibl o anaffylacsis, o ganlyniad i adwaith i chwistrelliadau a roddwyd fel rhan o weithgarwch heb ei gofrestru.

Gwelsom fod yr amgylchedd clinigol mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. At hynny, roedd yn gynnes ac yn groesawgar, ac roedd ystafell y dderbynfa wedi'i haddurno i safon uchel yn gyffredinol. Roedd yr amgylchedd yn ddiogel ac roedd camerâu diogelwch wedi'i gosod yn y blaen a'r cefn.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith, yn ogystal â pholisi ar Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a Thrin a Gwaredu Gwastraff Clinigol. Roedd pob un o'r ardaloedd a arolygwyd gennym yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da ac wedi'i ddodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Er bod prosesau clir ar waith ar gyfer glanhau a dihalogi'r amgylchedd a'r cyfarpar a ddefnyddiwyd, nid oedd unrhyw amserlenni glanhau ar waith nac wedi'u cofnodi.

**Rydym yn argymell y dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff cofnodion glanhau eu cwblhau a'u cadw ar ffeil fel y gellir cyfeirio atynt yn y dyfodol.**

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar y pryd. Roedd gan bob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ddealltwriaeth dda o'r prosesau rheoli heintiau a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol. Roedd ganddynt hefyd ymwybyddiaeth dda o arferion da mewn perthynas â hylendid dwylo.

Cyfarpar untro yn unig a ddefnyddiwyd ar y safle.

Nododd y clinig nad oedd rhaglen archwilio barhaus ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, ond y byddai'n barod i ddechrau'r broses hon.

**Dylai'r clinig roi rhaglen archwilio barhaus ar waith ar gyfer archwiliadau clinigol ac atal a rheoli heintiau a sicrhau y cydymffurfir â hi.**

Yn gyffredinol, roedd dealltwriaeth a chyfathrebu da rhwng aelodau'r tîm, a oedd yn cefnogi ei gilydd.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn lle y bo'n briodol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn unol â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Y cyfarwyddwr clinigol oedd yr arweinydd diogelu ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant lefel 2 cyfredol ar ddiogelu oedolion. Dywedwyd wrthym nad oedd y clinig yn trin plant ac nad oedd yn caniatáu plant ar y safle.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar gynnal y gwiriadau hyn.

**Rydym yn argymell y dylid sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.**

**Rheoli meddyginiaethau**
Roedd trefniadau priodol ar waith i archebu, cael, storio, rheoli, cyflenwi, rhagnodi, rhoi a gwaredu meddyginiaethau. Roedd meddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cofnodi'n gyson a'u labelu yn nodiadau a chofnodion y cleifion. Roedd yr holl feddyginiaethau'n cael eu cadw mewn lleoliad priodol dan glo.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith.

Roedd y clinig yn defnyddio system ar-lein i storio cofnodion cywir o'r holl gofnodion a oedd yn ymwneud â chleifion. Roedd fferyllfa gerllaw i roi cyngor ar unrhyw brosesau rheoli meddyginiaethau a oedd yn berthnasol i'r clinig.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd y clinig yn cynnwys y cyfarpar perthnasol i ddiwallu anghenion y cleifion.

Roedd y cyfarpar cyfyngedig a ddefnyddiwyd yn cael ei gynnal gan staff y clinig fel sy'n ofynnol.

Roedd y cyfarpar a welsom yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau clinigol perthnasol ar gael i'r staff i gefnogi eu hymarfer. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith yn y clinig.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y clinig. Roedd y staff o'r farn bod y gofal a roddwyd yn amserol a bod cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel.

**Rheoli cofnodion**
Edrychwyd ar sampl ar hap o gofnodion pum claf. Roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn glir, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn hawdd eu deall. Byddai'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ysgrifennu nodiadau'r ymgynghoriadau â llaw i ddechrau, cyn iddynt gael eu trawsgrifio ar system ddigidol.

Roedd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw gyffuriau a ragnodwyd neu driniaeth neu ymchwiliad arall.

Gwelwyd tystiolaeth bod hebryngwyr ar gael a dywedodd y staff fod y gwasanaeth hwn yn cael ei annog. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig yng nghofnodion y cleifion yr edrychwyd arnynt i ddangos bod cynigion ffurfiol o hebryngwyr wedi'u gwneud.

**Rhaid i unrhyw gynigion o hebryngwyr gael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roedd strwythur rheoli clir ar waith, a dangoswyd llinellau atebolrwydd ac adrodd clir.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol ar gyfer y clinig i'w gweld yn y dderbynfa. Roedd y rhain yn gyfredol ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cynnwys dyddiad adolygu er mwyn sicrhau y byddent yn cael eu diweddaru mewn modd amserol.

Roedd y system rheoli cofnodion, gan gynnwys y system technoleg gwybodaeth, yn effeithiol ac roedd cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (yr UE) 2016.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith, a oedd i'w gweld yn y clinig. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am bwy y gallent gysylltu â nhw i gael cyngor, gan gynnwys manylion AGIC, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer ymateb i gwynion.

Disgrifiwyd y broses ar gyfer cael ac adolygu cwynion, gan gynnwys casglu'r wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r gŵyn. Dywedwyd wrthym y byddai'r cwynion yn cael eu cofnodi a'u cofrestru ar y system rheoli gwybodaeth a ddefnyddiwyd. Er nad oedd llawer o gwynion wedi'u gwneud i'r clinig, nid oedd y cwynion hyn wedi'u cofnodi, er mwyn sicrhau bod cofnod ar gael i roi cipolwg ar unrhyw themâu. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw wersi a ddysgwyd o unrhyw gwynion yn cael eu trafod gyda'r staff yn y clinig.

**Rydym yn argymell y dylid cadw cofnodlyfr cwynion.**

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Cadarnhaodd y rheolwr clinigol fod nifer y staff a'u cymysgedd sgiliau yn addas, a'i bod yn ofynnol i ddau aelod o'r staff yn ogystal â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fod yn bresennol yn y clinig ar unrhyw adeg. Byddai apwyntiadau 30 munud yn cael eu trefnu ar gyfer ymgynghoriadau newydd, ac apwyntiadau 15 munud ar gyfer ymgynghoriadau eraill.

Dangosodd archwiliad o gofnodion hyfforddiant y pedwar aelod o staff yn y clinig fod angen i ddau aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth tân.

**Rydym yn argymell y dylid sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol**
Er y dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd wedi'u cynnal, nid oedd y rhain wedi'u dogfennu.

**Rhaid i gyfarfodydd staff gael eu dogfennu.**

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Roedd pob aelod o'r staff wedi'i gyflogi yn y clinig ers nifer o flynyddoedd.

Roedd cofnodion arfarniadau pob aelod o'r staff yn gyfredol ac wedi'u cwblhau'n flynyddol.

Er bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cwblhau pan gyflogwyd y staff i gychwyn, nid oedd unrhyw wiriadau wedi'u cwblhau arnynt ers hynny. Mae angen i'r clinig fodloni ei hun, bob blwyddyn o leiaf, na fu unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r staff a fyddai'n effeithio ar statws eu gwiriad gan y DBS.

**Rydym yn argymell y dylid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod staff yn rhoi gwybod am unrhyw amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar statws eu gwiriad gan y DBS.**

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.** | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: The Cardiff Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: The Cardiff Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud yn siŵr bod cleifion yn ymwybodol y gallant gael gwasanaeth yn Gymraeg.** | Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 5, Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth | Arwyddion a neges wedi'i hatodi i ohebiaeth ysgrifenedig yn nodi bod yr ohebiaeth hon ar gael yn Gymraeg. | Y Rheolwr Cofrestredig | 1 mis |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwasanaeth yn mynd ati i geisio adborth gan gleifion a bod canlyniadau'r adborth hwn yn cael eu harddangos yn ardal y dderbynfa ac yn y canllaw i gleifion.** | Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 5, Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth | Creu ffurflenni adborth papur, a pharhau i annog adborth drwy ffynonellau ar-lein. | Y Rheolwr Cofrestredig a Staff y Clinig. | 1 mis |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 19 | | | |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod amserlenni glanhau ar waith a'u bod yn cael eu defnyddio.** | Safon 13 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi<br><br>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 15 (3) | Creu siart wirio glanhau er mwyn dogfennu'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud. | Y Rheolwr Cofrestredig a Staff y Clinig. | 1 mis |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn y clinig fel rhan o raglen archwilio glinigol.** | Safon 6 Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd<br><br>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9 (1) (o) | Monitro/archwilio unrhyw ddigwyddiadau clinigol andwyol neu heintiau posibl y mae angen eu trin â gwrthfiotigau yn barhaus. | Y Rheolwr Cofrestredig | 1 mis |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol priodol yn y clinig, gan gynnwys hyfforddiant lefel 2 ar ddiogelu a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth tân.** | Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol<br><br>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20 (2) (a) | Mae hyfforddiant parhaus eisoes ar waith a bydd cyrsiau lefel 2 ar ddiogelu yn cael eu trefnu. | Y Rheolwr Cofrestredig a Staff y Clinig. | 1 mis |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff unrhyw gynigion o hebryngwyr eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.** | Safon 20 Rheoli Cofnodion<br><br>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Atodlen 3 | Prynu stampiau rwber er mwyn dogfennu'r ymarfer safonol a gwblhawyd eisoes. | Y Rheolwr Cofrestredig | 1 mis |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodlyfr cwynion ei gadw yn rhestru'r cwynion anffurfiol a ffurfiol yn y clinig.** | Safon 6 Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd | Creu Cofnodlyfr ar gyfer unrhyw gwynion anffurfiol neu ffurfiol. | Y Rheolwr Cofrestredig | 1 mis |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 24 | | | |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarfodydd staff eu dogfennu'n ffurfiol.** | Safon 1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd | Creu cofnodlyfr ar gyfer gofnodion cyfarfodydd. | Y Rheolwr Cofrestredig a Staff y Clinig. | 1 mis |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud yn siŵr bod staff yn rhoi gwybod am unrhyw amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar statws eu gwiriad gan y DBS.** | Safon 24 - Arferion Recriwtio a Chyflogi'r Gweithlu<br><br>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Atodlen 2 | Pennu disgwyliadau i'r staff roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau andwyol a chwblhau gwiriadau rheolaidd gan y DBS fel sy'n safonol. | Y Rheolwr Cofrestredig | 1 mis |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Richard Karoo**

**Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 15 Mai 2023**